# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

07/09/2023

**Llythyr gan Gorff Llywodraethol yr Ysgol:**

Annwyl Rieni a Gofalwyr

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, ac ar ran y Corff Llywodraethu, hoffwn eich croesawu yn ôl i'r ysgol a chroeso arbennig i'r rheiny ohonoch sy'n newydd i Ysgol Bryn-y-Môr.

Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol ac yn gobeithio y gallwn edrych ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio llwyddiannus gyda phob aelod o gymuned yr ysgol. Mae cynnal perthynas dda rhwng yr ysgol a chithau fel rhieni a gwarcheidwaid yn hollbwysig er mwyn sicrhau blwyddyn hapus a chynhyrchiol arall.

Gyda hyn mewn golwg, carwn eich annog i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd priodol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad a rhannu diweddariadau a gwybodaeth am yr ysgol a dosbarthiadau gwahanol, ond, mae yna leiafrif sy'n yn dewis eu defnyddio mewn modd negyddol. Mae hyn yn arwain at gorddi pryder a lledu sïon ymysg rhieni ac mae trafodaethau o'r fath yn effeithio ar y gymuned ysgol gyfan, yn fwriadol ai peidio. Fe ddylem fod yn dangos yr enghraifft orau bosib i'n plant, yn enwedig o ystyried y byddant yn tyfu mewn oes ble mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhywbeth mor bwerus a dylanwadol. Mae trafod materion gydag eraill o fewn clyw ein plant hefyd yn medru cael effaith andwyol arnyn nhw a'u perthynas gyda, a'u hagwedd tuag at, staff yr ysgol. Os yn ddi-sail, gall effeithio'n ddifrifol ar enw da ac arwain at honiadau difrifol neu faterion enllib.

Rydym yn ffodus iawn yn Ysgol Bryn-y-Môr i gael aelodau o staff, ar bob lefel, sy'n dod â phrofiad, arbenigeddau gwahanol a brwdfrydedd dros addysgu i'n hysgol. Yn bennaf oll, maent yn angerddol dros roi'r dechrau gorau posib i'r plant. Disgwylir i chi drin yr holl staff gyda pharch gan gofio cysylltu yn y modd priodol, ac o fewn oriau ysgol os hoffech drafod unrhyw faterion.

Yn gywir,

S G Thomas

Saran Thomas
Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**